

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Fy Mhensiwn Ar-lein:

Eich Canllaw Cyflym a Hawdd

Canllaw cam wrth gam i bopeth y gallwch chi ei
wneud ar-lein



Cronfa Bensiwn
DYFED
Pension Fund

Cynnwys

<u>Adran</u>	<u>Is-adran</u>	<u>Tudalen/Tudalennau</u>
Croeso i Fy Mhensiwn Ar-lein	—	4
Eich Hafan	a) Trosolwg o'r Hafan b) Teils a Llywio	5 5–8
Dogfennau a Lanlwythiadau	a) Ffeiliau a anfonwyd ataf b) Fy Lanlwythiadau c) Dogfennau a Ffurflenni'r Gronfa	9–10 10–12 12–13
Slipiau Cyflog a P60s	a) Slipiau cyflog b) P60s c) Os nad ydych yn derbyn pensiwn	14–15 16 17
Datganiadau Blynyddol o'ch Buddion	a) Rhagolwg Pensiwn b) Dadansoddiad o'ch Pensiwn c) Buddion Marwolaeth d) Lawrlwytho eich Datganiad e) Os nad yw'r Datganiad Blynyddol o'ch Buddion ar gael	18–19 19 19–20 20 20
Datganiadau Blynyddol o'ch Buddion Gohiriedig	a) Trosolwg o'ch Pensiwn Gohiriedig b) Dadansoddiad o'ch Pensiwn c) Buddion Marwolaeth d) Lawrlwytho'r Datganiad Blynyddol o'ch Buddion Gohiriedig e) Os na allwch ddod o hyd i'ch datganiad	21–22 22 22 23 23
Rheoli eich Buddiolwyr	a) Beth yw Buddiolwyr?	24

<u>Adran</u>	<u>Is-adran</u>	<u>Tudalen/Tudalennau</u>
	b) Gweld eich Buddiolwyr Presennol	24–25
	c) Ychwanegu Buddiolwr	25
	d) Golygu Buddiolwr	25–26
	e) Gwaredu Buddiolwr	26
	f) Diweddarau eich Manylion	26–27
Cyfrifianellau ac Offer	a) Cyfrifianellau Buddion	28–29
	b) Cynllunydd Ymddeol	29–30
	c) Pwy sy'n gallu defnyddio'r Cynllunydd Ymddeol?	30
	d) Deall eich Canlyniadau	30–31
Manylion Personol, Manylion Cyswllt a Manylion Banc	a) Manylion Personol	32–33
	b) Manylion Cyswllt	33–34
	c) Dewisiadau Cyfathrebu	34
	d) Manylion Cyflogaeth	34–35
	e) Manylion Banc	35–36
	f) Pam mae'n bwysig	36
Cysylltwch â Ni	a) Tudalen Cysylltwch â Ni	37–38
	b) Cadw'n Ddiogel	38
Oes angen help arnoch chi neu oes gennych chi gwestiynau?		39

Croeso i Fy Mhensiwn Ar-lein


Fy Mhensiwn Ar-lein yw eich cyfrif pensiwn ar-lein.
Gallwch ei ddefnyddio i wneud y canlynol:

- Gwirio manylion eich pensiwn
- Gweld eich datganiadau pensiwn
- Gweld eich slipiau cyflog a'ch P60s
- Diweddarau eich gwybodaeth bersonol
- Lanlwytho dogfennau yn ddiogel
- Defnyddio offer pensiwn defnyddiol
- Cysylltu â'ch cronfa pensiwn

Mae'r canllaw hwn yn dangos i chi sut i ddefnyddio popeth yn glir, yn syml a cham wrth gam.

1. Eich Hafan

Pan fyddwch chi'n mewngofnodi i Fy Mhensiwn Ar-lein, byddwch yn cyrraedd eich hafan.



Yma fe welwch deils sy'n mynd â chi i wahanol rannau o'ch cyfrif pensiwn.

Gall eich hafan edrych ychydig yn wahanol yn dibynnu ar eich statws pensiwn (gweithredol, gohiriedig, pensiynwr, dibynnydd).

Dyma beth mae pob teilsen yn ei wneud.

Dogfennau a Lanlwythiadau

Dyma ble gallwch chi wneud y canlynol:

- Darllen dogfennau y mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi'u hanfon atoch
- Lawrlwytho llythyrau a datganiadau
- Lanlwytho dogfennau yn ddiogel o'ch ffôn neu'ch cyfrifiadur

Dewiswch **Ewch i fy nogfennau** i ddechrau.

Datganiadau Blynyddol o'ch Buddion

Mae'r Datganiad Blynyddol o'ch Buddion yn dweud wrthych:

- Beth yw gwerth eich pensiwn
- Yr hyn y gallech ei dderbyn pan fyddwch chi'n ymddeol
- Sut mae eich buddion wedi cronni dros y flwyddyn
- Unrhyw fuddion marwolaeth i'ch anwyliaid

Gallwch hefyd gymharu eich hen ddatganiadau.

Dewiswch **Gweld fy natganiadau**.

Rheoli buddiolwyr

Yma gallwch ddweud wrth eich cronfa pwy yr hoffech iddynt dderbyn buddion os byddwch yn marw.

Gallwch:

- Ychwanegu buddiolwr
- Diweddarau manylion rhywun
- Gwaredu rhywun
- Ychwanegu gwybodaeth ychwanegol

Dewiswch **Rheoli buddiolwyr**.

Cyfrifianellau Buddion

Mae'r offer hyn yn eich helpu i wneud y canlynol:

- Amcangyfrif yr hyn y gallech ei dderbyn wrth ymddeol
- Gwirio gwahanol oedrannau ymddeol
- Deall sut mae patrymau gweithio yn effeithio ar eich pensiwn

Dewiswch **Gwneud fy amcangyfrifon**.

Prisiad Diweddaraf

Os ydych chi'n aelod gweithredol, gallwch weld:

- Eich prisiad pensiwn diweddaraf
- Dadansoddiad o sut mae eich buddion yn cael eu cyfrifo
- Manylion am bob cyflogaeth sydd gennych

Dewiswch **Gweld fy mhrisiad diweddaraf**.

Slipiau Cyflog Pensiwn

Os ydych chi'n derbyn pensiwn, gallwch wneud y canlynol:

- Gweld eich slipiau cyflog misol
- Gwirio eich cofnod taliadau
- Lawrlwytho slipiau cyflog

Dewiswch **Cyrchwch fy slipiau cyflog a P60s**.

Manylion a Gosodiadau

Yma gallwch ddiweddarau:

- Eich manylion personol
- Eich cyfeiriad e-bost
- Eich manylion cyswllt

- Eich dewisiadau cyfathrebu
- Eich manylion cyflogaeth
- Eich manylion banc (*os ydych chi'n derbyn pensiwn*)

Dewiswch **Gweld fy Manylion**.

Eich Ceisiadau

Gallwch anfon cwestiynau neu ofyn am wybodaeth yn uniongyrchol o'r dudalen hon.

Dewiswch **Mynd i fy ngheisiadau**.


Cysylltwch â Ni

Os oes angen help arnoch, gallwch anfon neges at Gronfa Bensiwn Dyfed gan ddefnyddio'r ddolen **Cysylltwch â ni**.

2. Dogfennau a Lanlwythiadau

Eich lle i weld, lawrlwytho a lanlwytho dogfennau pensiwn.

Gallwch gyrraedd yr adran hon o'ch hafan drwy ddewis **Ewch i fy nogfennau**.



Mae'r adran Dogfennau yn cynnwys tair rhan:

1. **Ffeiliau a anfonwyd ataf**
2. **Fy lanlwythiadau**
3. **Dogfennau a ffurflenni'r gronfa**

Ceir esboniad am bob rhan isod.

a) Ffeiliau a anfonwyd ataf

Mae'r dudalen hon yn dangos yr holl ddogfennau y mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi'u hanfon atoch. Gall y rhain gynnwys:

- Datganiadau
- Llythrau
- Diweddariadau pwysig
- Gwybodaeth am bensiynau
- Cyfathrebu cyffredinol

Gallwch weld, lawrlwytho neu gadw unrhyw ddogfen.

Files sent to me

Here you will find all of the documents we've sent to you.



Sort

File name	Date ↓	Download
 ADP Document without Barcode.pdf	13/02/2023	
 Word Version of ABS Template.pdf	13/02/2023	

< 1 >

[Back to dashboard](#)

Beth y gallwch chi ei wneud ar y dudalen hon:

- **Trefnu** eich dogfennau (diweddaraf neu hynaf)
- **Chwilio** am ddogfen yn ôl enw
- **Lawrlwytho** unrhyw ffeil sydd ei hangen arnoch
- **Agor** ffeil i'w darllen ar-lein

Bydd dogfennau yn ymddangos yma os yw'ch cronfa yn eu cyhoeddi i chi.

Os nad oes gennych unrhyw ddogfennau eto, fe welwch neges syml yn esbonio hyn.

b) Fy Lanlwythiadau

Lanlwytho dogfennau'n ddiogel i'ch cronfa bensiwn.

Gallwch lanlwytho dogfennau i gefnogi eich cofnod pensiwn, er enghraifft:

- Tystysgrif geni
- Tystysgrif priodas
- Dogfennau adnabod
- Llythyrau banc
- Ffurflenni
- Unrhyw dystiolaeth y mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi gofyn amdani.

Dewiswch **Lanlwytho a gweld fy ffeiliau**.

My uploads

Here you can upload files and view all of the documents you've sent us.

Upload files



Search for files



Sort

File name	Date ↓	Download
 Document for MSS.xls	07/03/2023	
 logo.pdf	13/02/2023	

< 1 >

Back to dashboard

Mathau o ffeiliau sy'n dderbyniol

Gallwch lanlwytho fformatau cyffredin fel:

PDF, JPG, PNG, DOCX, TXT, RTF, TIFF, HEIC a mwy
(Rhaid i'ch ffeil fod **o dan 10MB**.)

Sut i lanlwytho dogfen

1. Dewiswch **Dewiswch ffeiliau** neu llusgwch eich ffeiliau i'r blwch lanlwytho
2. Dewiswch **Lanlwytho**
3. Arhoswch i'r system brosesu eich ffeil
4. Bydd eich ffeil yn ymddangos yn y rhestr pan fydd hyn wedi'i gwblhau

Upload files

Choose files to upload

We support the following file formats: pdf, doc, docx, rtf, txt, tiff, jpeg, jpg, png, odt, heic, and eml. Each file has to be under 10MB.

Drag and drop files here or

Browse files

Back to dashboard

Queue

File name	Status
Birth Certificate.pdf	 Uploading
New AdditionCertificate.pdf	 Uploading
Statement 2023.docx	 Uploading

Bydd eich ffeil sydd wedi'i lanlwytho yn dangos un o'r tri statws hyn:

- **Wedi lanlwytho** – gweithiodd popeth
- **Wedi canfod firws** – mae'r ffeil wedi'i rhwystro er diogelwch
- **Wedi methu lanlwytho** – ceisiwch eto neu lanlwythwch fformat gwahanol

Status

 Uploaded

 Virus detected

 Upload failed

Ar ôl lanlwytho

Gallwch ddewis o'r canlynol:

- **Ewch i 'Lanlwythiadau'** – gweld eich holl ffeiliau sydd wedi'u lanlwytho
- **Lanlwytho mwy o ffeiliau** – ychwanegu ffeil arall
- **Yn ôl i'r dangosfwrdd** – mynd yn ôl i'ch hafan

Mae eich dogfennau sydd wedi'u lanlwytho yn cael eu storio'n ddiogel, a gall Cronfa Bensiwn Dyfed eu gweld yn ddiogel.

c) Dogfennau a Ffurflenni'r Gronfa

Mae'r dudalen hon yn dangos dogfennau cyffredinol y mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi'u cyhoeddi ar gyfer pob aelod.

Gall y rhain gynnwys:

- Canllawiau'r cynlluniau
- Taflenni gwybodaeth
- Polisiâu

- Ffurflenni cyffredinol
- Diweddariadau'r Gronfa

[Home](#)
[Menu](#)
[Logout](#)

Fund documents and forms

Here you can find application forms, newsletters and other files made available to you by your pension fund.

Newsletters

Sorry, there are currently no documents available to download.

Application forms

Beneficiaries change request

Form to request a change to your beneficiaries

[Download Beneficiaries change request.pdf](#)

[Back to dashboard](#)

[OVERRIDE-DEFAULT-PHONE-NUMBER](#)
[OVERRIDE-DEFAULT-EMAIL-ADDRESS](#)

Manage your pension

Documents and uploads

[Latest valuation](#)
[Annual Benefit Statements](#)
[Manage beneficiaries](#)

Benefit calculators

[Retirement planner](#)
[Transfer value](#)

Your account

[Details and settings](#)
[Contact us](#)

[Terms & Conditions](#)
[Privacy policy](#)
[Accessibility](#)
[Cookies policy](#)


Gallwch chi wneud y canlynol:

- Pori'r rhestr
- Lawrlwytho unrhyw ddogfen
- Darllen gwybodaeth yn uniongyrchol o'ch dyfais

3. Slipiau Cyflog a P60s

Gweld eich taliadau pensiwn, lawrlwytho eich slipiau cyflog a gweld eich dogfennau treth.

Os ydych chi'n derbyn pensiwn, gallwch weld eich slipiau cyflog a'ch P60s ar-lein. O'ch hafan, dewiswch **Cyrchwch fy slipiau cyflog a P60s**.



Mae hyn yn mynd â chi i dudalen lle gallwch newid rhwng:

- **Slipiau cyflog**
- **P60s**

Os oes gennych fwy nag un pensiwn (er enghraifft, mwy nag un gyflogaeth), gallwch newid rhyngddynt hefyd.

a) Slipiau cyflog

Mae eich slipiau cyflog yn dangos:

- Eich taliad pensiwn misol
- Unrhyw ddiidyniadau
- Eich manylion treth
- Cyfansymiau'r flwyddyn hyd yma (ar y slip cyflog diweddaraf)

Ar y dudalen hon, gallwch wneud y canlynol:

- Dewis **blwyddyn dreth**
- Dewis **slip cyflog**
- **Lawrlwytho** copi o'r slip cyflog (os yw ar gael)
- Gweld gwybodaeth slipiau cyflog ar y sgrin hyd yn oed os nad oes dogfen yn bodoli

Payslips and P60s

Payroll number Tax year
 Payroll number missing 2023 - 2024

Payslips P60s

My payslips

Month	Payment date	Gross pension	Net pension	Action
July	31/07/2023	£25.99	£25.59	
June	30/06/2023	£25.99	£25.79	
May	31/05/2023	£25.99	£25.59	
April	28/04/2023	£25.28	£25.08	

< 1 >

July 2023 payslip

Year-to-date gross

£2,154.59

Gross pension

£542.37

Year-to-date tax

£292.80

Tax

£74.00

Date of payment

31/07/2023

Other deductions

£0.00

Tax code

206L

Net pension

£468.37

Close

Os oes slip cyflog PDF ar gael, fe welwch eicon lawrlwytho.
 Os na, gallwch agor y slip cyflog a gweld y manylion.

Efallai y byddwch hefyd yn gweld unrhyw **daliadau untro** (er enghraifft, taliad ôl-ddyddiedig neu addasiad).

b) P60s

P60 yw eich dogfen dreth ddiwedd blwyddyn.

Byddwch yn cael un bob blwyddyn os ydych chi'n derbyn pensiwn.

Ar y tab **P60s**, gallwch chi wneud y canlynol:

- Gweld eich holl P60s yn ôl blwyddyn dreth
- Dewis unrhyw P60 i'w gweld
- Lawrlwytho copi PDF

Payslips and P60s

Payroll number

10017987

Payslips

P60s

My P60s

Tax year	Gross earnings	Total tax	Action
2023 - 2024	£10,198.97	£1,575.80	 
2022 - 2023	£9,229.55	£1,196.00	
2021 - 2022	£8,939.23	£1,082.00	
2020 - 2021	£8,902.92	£1,044.60	

Payslips and P60s

Payroll number
WY12345

Payslips **P60s**

My P60s

Tax year	Gross earnings	Total tax	Action
2021 - 2022	£5,732.75	£0.00	 
2020 - 2021	£0.00	£0.00	

2021 - 2022 P60

Close x

Total taxable pay £5,732.75	Total tax £0.00
Pay this employment £5,732.75	Tax this employment £0.00
Taxable pay previous £0.00	Tax previous £0.00
Final tax code 1257L	Pay reference WY12345
Tax district 070/D1S	Tax office name HMRC PAYE

[Download a copy](#) [Close](#)

Os oes gennych fwy nag un pensiwn sy'n cael ei dalu, byddwch chi'n gallu gweld P60s am bob pensiwn ar wahân.

c) Os nad ydych chi'n derbyn pensiwn

Os nad ydych chi'n derbyn unrhyw daliadau pensiwn eto:

- Ni fyddwch yn gweld y deilsen slipiau cyflog
- Ni fydd gennych unrhyw P60s
- Nid yw'r adran hon yn berthnasol i aelodau gweithredol nac aelodau gohiriedig

Fe welwch y deilsen hon unwaith y byddwch yn dechrau derbyn pensiwn.

4. Datganiadau Blynyddol o Fuddion

Gallwch weld beth yw gwerth eich pensiwn a beth y gallech ei dderbyn yn y dyfodol.

Mae'r Datganiad Blynyddol o'ch Buddion yn rhoi trosolwg syml o'ch pensiwn, gan gynnwys:

- Beth yw gwerth eich pensiwn hyd yma
- Yr hyn y gallech ei dderbyn ar wahanol oedrannau ymddeol
- Dadansoddiad o'ch buddion
- Eich buddion marwolaeth
- Sut y tyfodd eich pensiwn dros y flwyddyn

I weld eich datganiad, dewiswch **Edrychwch ar fy natganiadau** ar eich hafan.


a) Rhagolwg Pensiwn

Mae hyn yn dangos yr hyn y gallech ei dderbyn pan fyddwch chi'n ymddeol.

Fel arfer, gallwch weld:

- Eich pensiwn blynyddol amcangyfrifedig
- Eich cyfandaliad amcangyfrifedig (os yw'n berthnasol)
- Sut mae'r symiau hyn yn newid yn dibynnu ar yr oedran rydych chi'n ymddeol
- Crynodeb o'ch holl fathau o fuddion (Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE), cyflog terfynol, ac ati.)

Dewiswch y tab **Rhagolwg Pensiwn** i weld y wybodaeth hon.



Mae'r adran hon yn eich helpu i ddeall:

- Faint y gallech ei dderbyn.

- Sut y gall ymddeol yn gynharach neu'n hwyrach newid eich pensiwn
- Sut olwg sydd ar eich buddion heddiw o gymharu â blynyddoedd blaenorol

b) Dadansoddiad Pensiwn

Mae'r adran hon yn dangos i chi sut mae eich pensiwn wedi cronni dros amser.

Gallech weld:

- Eich pensiwn CARE am y flwyddyn
- Cyfanswm eich pensiwn CARE hyd yma
- Unrhyw fuddion cyflog terfynol (os oes gennych rai)
- Addasiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn
- Dadansoddiad gweledol o bob rhan o'ch pensiwn

Dewiswch y tab **Dadansoddiad Pensiwn** i weld y wybodaeth hon.

Pension breakdown

This is a summary of how your pension changed between 01/04/2022 to 31/03/2023. All figures shown were correct as of midnight on 31/03/2023.



This year, your combined pensions increased by

£1,865.95



This brings your current pension value to

£19,026.34 a year



With a guaranteed tax-free lump sum of at least

£9,404.28

Mae hyn yn eich helpu i ddeall yn union sut mae eich pensiwn yn cael ei gyfrifo.

c) Buddion Marwolaeth


Mae'r adran hon yn esbonio'r hyn y gallai eich anwyliaid ei dderbyn os byddwch chi'n marw.

Gallwch weld:

- Eich **cyfandaliad grant marwolaeth**
- Eich **pensiwn goroeswr**

- Dadansoddiad o sut mae'r symiau hyn yn cael eu gweithio allan
- Dolenni i **Rheoli buddiolwyr**

Dewiswch y tab Buddion Marwolaeth.



Os hoffech ddiweddarwch pwy sy'n derbyn eich buddion, gallwch wneud hynny o'r deilsen **Rheoli buddiolwyr** ar eich hafan (a gwmpesir yn Rhan 7).

d) Lawrlwytho eich Datganiad

Gallwch lawrlwytho copi o'r Datganiad Blynnyddol o'ch Buddion ar gyfer eich cofnodion.

Chwiliwch am y botwm **Lawrlwytho** ar y dudalen.

e) Os na welwch deilsen Datganiad Blynnyddol o'ch Buddion

Efallai na fyddwch yn gweld teilsen Datganiad Blynnyddol o'ch Buddion:

- os nad yw eich cronfa wedi cyhoeddi eich datganiad diweddaraf eto
- os nad ydych chi'n aelod gweithredol
- os ydych chi'n gynghorydd, neu'n aelod o'r heddlu/gwasanaeth tân (ddim ar gael i rai sefydliadau)

Yn yr achosion hyn, ni fydd eich hafan yn dangos y deilsen.

5. Datganiadau Blynyddol o'ch Buddion Gohiriedig

Gweld gwerth eich pensiwn gohiriedig a'r hyn y gallech ei dderbyn pan gaiff ei dalu.

Os oes gennych **bensiwn gohiriedig**, gallwch weld y Datganiad Blynyddol o'ch Buddion Gohiriedig ar-lein.

Mae hyn yn dangos:

- Beth yw gwerth eich pensiwn ar hyn o bryd
- Pryd y gallwch gael eich pensiwn
- Unrhyw gyfandaliad y gallech ei dderbyn
- Buddion i'ch anwyliaid
- Dadansoddiad personol o'ch pensiwn

Gallwch ddod o hyd i hyn drwy ddewis **Gweld fy natganiadau** ar eich hafan, neu drwy ddewis eich teilsen **Datganiad Blynyddol o'ch Buddion Gohiriedig**.

a) Trosolwg o'ch Pensiwn Gohiriedig

Pan fyddwch chi'n agor y Datganiad Blynyddol o'ch Buddion Gohiriedig, byddwch yn gweld crynodeb clir sy'n dangos:

- **Gwerth presennol eich pensiwn gohiriedig**
- **Y dyddiad y gallwch ddechrau derbyn eich pensiwn**
- A allech dderbyn **cyfandaliad**
- Dadansoddiad o'r buddion sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth flaenorol
- Unrhyw wybodaeth am addasiadau ymddeol yn gynnar/hwyr

Bydd hyn yn rhoi darlun clir i chi o'ch buddion gohiriedig heddiw.

Your pension value

Your benefits will become payable at an
unreduced rate on

05 December 2039



Your current annual pension value

£4,526.05
a year



Your minimum tax-free lump sum

£13,137.54

b) Dadansoddiad Pensiwn

Mae'r adran hon yn esbonio:

- Sut mae eich pensiwn gohiriedig wedi cronni
- Unrhyw addasiadau a wnaed ers i chi adael y cynllun
- Eich buddion Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrizio (CARE) neu gyflog terfynol (yn dibynnu ar reolau eich cynllun)

Fel arfer, byddwch chi'n gweld:

- Dadansoddiad blynyddol o'ch buddion
- Cyfanswm y buddion hyd yma
- Ffigurau wedi'u labelu'n glir

Dewiswch y tab **Dadansoddiad**.

c) Buddion Marwolaeth

Mae'r Datganiad Blynyddol o'ch Buddion Gohiriedig hefyd yn esbonio beth allai eich anwyliaid ei dderbyn os byddwch yn marw cyn cael eich pensiwn gohiriedig.

Gall hyn gynnwys:

- Cyfandaliad grant marwolaeth
- Pensiwn goroeswr
- Pensiynau plant (os yw'n berthnasol)

Pension value

Death benefits

What would happen to your pension if you were to die before retirement

In the event of this happening, your nominated beneficiaries will receive a lump sum death grant and an annual survivor's pension. For illustrative purposes, survivor's pension has been calculated on the assumption you are married. This has no impact on your pension. See below for more details.

Lump sum death grant

This is payable if you die after leaving the fund but before taking your pension. The amount depends on when you left. You can find out more in the detailed information below.



£400,000.00

Annual survivor's pension

In addition, if you have any dependents, they will receive a yearly paid income. This figure is calculated before debits are applied, for example like remaining mortgage or divorce settlements.



£306,000.93 a year

Detailed info and breakdowns

▼

Os oes angen i chi ddiweddarw eich buddiolwyr, gallwch wneud hynny o'ch hafan (gweler Rhan 7).

d) Lawrlwytho'r Datganiad Blynyddol o'ch Buddion Gohiriedig

Gallwch lawrlwytho copi o'ch datganiad ar gyfer eich cofnodion.

Chwiliwch am y botwm Lawrlwytho ar waelod neu dop y dudalen.

e) Os na allwch ddod o hyd i'r datganiad o'ch buddion gohiriedig

Efallai na fyddwch yn gweld y nodwedd hon:

- os nad yw eich cronfa wedi cyhoeddi eich datganiad eto
- os gwnaethoch chi adael cyflogaeth yn ddiweddar, a bod eich cofnod gohiriedig yn dal i gael ei brosesu
- Rydych chi'n aelod gweithredol neu'n bensiynwr
- Mae eich cronfa yn cyhoeddi eich datganiad mewn rhan wahanol

Os ydych yn ansicr, gallwch anfon neges at Gronfa Bensiwn Dyfed gan ddefnyddio'r tudalennau **Eich Ceisiadau** neu **Cysylltwch â ni** (gweler Rhan 11).

6. Rheoli Eich Buddiolwyr

Dweud wrth eich cronfa bensiwn pwy yr hoffech iddynt dderbyn buddion pan fyddwch chi'n marw.

Gallwch ddiweddarau eich buddiolwyr ar unrhyw adeg drwy Fy Mhensiwn Ar-lein. I ddechrau, dewiswch **Rheoli buddiolwyr** o'ch hafan.

Mae'r dudalen hon yn helpu i sicrhau y gofalir am eich anwyliaid a bod gan Gronfa Bensiwn Dyfed y wybodaeth gywir ar gofnod.

a) Beth yw Buddiolwyr?

Buddiolwr yw rhywun rydych chi'n dewis iddo dderbyn rhan o'ch buddion pensiwn os byddwch chi'n marw.

Mae dau fath:

1. Buddiolwyr Grant Marwolaeth

Pobl rydych chi'n eu henwebu i dderbyn *cyfandaliad*.
Gallwch chi ddewis unrhyw un: partner, aelod o'r teulu, ffrind neu elusen.

2. Buddiolwyr Pensiwn Goroeswr (os yw'n berthnasol)

Fel arfer priod, partner sifil neu ddibynnydd cymwys a all dderbyn pensiwn misol.

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn defnyddio'r manylion rydych chi'n eu darparu i helpu i lywio'r penderfyniad.

b) Gweld eich Buddiolwyr Presennol

Pan fyddwch chi'n agor y dudalen, byddwch yn gweld unrhyw fuddiolwyr sydd wedi'u cofnodi eisoes.

Ar gyfer pob un efallai y gwelwch:

- Ei (h)enw
- Ei berthynas/phertynas â chi

- Ei gyfran/chyfran o'r budd
- Nodiadau neu fanylion ychwanegol

Rebecca	Percentage allocated: 70 %	 Delete	 Edit
Rob	Percentage allocated: 15 %	 Delete	 Edit
Lulu	Percentage allocated: 15 %	 Delete	 Edit

Total amount allocated: **100%**

Os nad oes unrhyw beth wedi'i restru, fe welwch neges yn dweud y gallwch ychwanegu eich buddiolwr cyntaf.

c) Ychwanegu Buddiolwr Newydd

I ychwanegu rhywun newydd:

1. Dewiswch **Ychwanegu buddiolwr**
2. Teipiwch ei (h)enw llawn
3. Dewiswch ei berthynas/phetherthynas â chi
4. Rhodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (dewisol)
5. Cadarnhewch y ganran y dylai ei derbyn
6. Dewiswch **Cadw**

Gallwch ychwanegu cynifer o fuddiolwyr ag sydd eu hangen arnoch.

Rhaid i'r canrannau ddod i **100%** ar draws yr holl fuddiolwyr grant marwolaeth.

d) Golygu buddiolwr presennol

Os oes angen i chi newid manylion rhywun:

1. Dewiswch y buddiolwr rydych chi am ei olygu
2. Diweddarwch ei (h)enw, ei b/pherthynas â chi neu'r ganran
3. Dewiswch **Cadw**


Rhesymau cyffredin dros olygu:

- Priodas neu ysgariad
- Aelodau newydd o'r teulu
- Newid mewn amgylchiadau personol

e) Gwaredu buddiolwr

Os nad ydych chi am i rywun gael ei restru mwyach:

1. Dewiswch y buddiolwr
2. Dewiswch **Gwaredu**
3. Cadarnhewch y newid



A screenshot of a web application dialog box titled "Delete beneficiary" with a "Close x" button in the top right corner. The main text asks: "Are you sure you want to delete this beneficiary? You will need to confirm the total percentages and submit on the next page to complete the process." At the bottom, there are two buttons: an orange "Delete beneficiary" button and a white "Cancel" button with a grey border.

Bydd eich rhestr yn cael ei diweddarau ar unwaith.

f) Cadw'ch buddiolwyr yn gyfredol

Mae'n bwysig adolygu eich buddiolwyr yn rheolaidd - er enghraifft:

- Ar ôl priodas
- Ar ôl ysgariad
- Ar ôl cael babi newydd

- Os bydd rhywun yn marw
- Os ydych chi am newid pwy sy'n cael y buddion

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn ystyried eich dymuniadau wrth dalu buddion marwolaeth, felly mae gwybodaeth gywir a chyfredol yn helpu popeth i fynd yn esmwyth.

7. Cyfrifianellau ac Offer

Amcangyfrif eich pensiwn, gwirio gwahanol oedrannau ymddeol, a deall eich buddion yn y dyfodol.

Gallwch ddod o hyd i'r cyfrifianellau ar eich hafan drwy ddewis **Gwneud fy amcangyfrifon**.

Mae'r offer hyn yn gadael i chi archwilio gwahanol senarios ymddeol fel y gallwch chi wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eich dyfodol.

Mae **dau fath** o gyfrifiannell y gallech eu gweld:

1. **Cyfrifianellau buddion** (ar gael i'r rhan fwyaf o aelodau gweithredol)
2. **Cynllunydd Ymddeol**

Ni fydd pawb yn gweld y ddau fath, mae'n dibynnu ar eich statws pensiwn.

a) Cyfrifianellau Buddion

Gweld beth allech chi ei dderbyn ar wahanol oedrannau ymddeol.

Mae'r offeryn hwn yn eich helpu i ddeall:

- Beth allai gwerth eich pensiwn fod ar wahanol oedrannau
- Sut mae ymddeol yn gynharach neu'n hwyrach yn effeithio ar eich pensiwn
- A allai fod gennych hawl i gael cyfandaliad
- Sut mae eich buddion yn cronni dros amser

Pan fyddwch chi'n agor y gyfrifiannell:

1. Dewiswch yr **oedran ymddeol** rydych chi am ei wirio
2. Dewiswch **Gwneud cyfrifiad**
3. Bydd eich amcangyfrif pensiwn yn ymddangos

What date do you want to retire?

Day 19 Month 01 Year 2039

Advanced options

You can update the figures below to get a more accurate estimate of your potential retirement income. The default figures are based on your earnings. These fields are optional and you don't need to change them if you're unsure.

CARE pay

£ 15641.62

Final salary pay

£ 25390

Calculate my results

Your retirement results

Maximum annual pension option:



Your annual pension would be:
£6,107.79 a year



You would receive a lump sum of:
£0.00

Or maximum lump sum option:



A maximum annual pension of:
£3,926.44 a year



Including a tax-free lump sum of:
£26,176.20

Gallech weld:

Eich pensiwn blynyddol amcangyfrifedig

Dyma'r swm y gallech ei dderbyn bob blwyddyn ar yr oedran rydych chi'n ei ddewis.

Eich cyfandaliad (os yw'n berthnasol)

Yn dibynnu ar eich rheolau pensiwn, efallai y bydd gennych hawl i gyfandaliad di-dreth.

Dadansoddiad o fuddion

Dadansoddiad o'r rhannau CARE a chyflog terfynol ar wahân.

Dewis cyflogaeth (os oes gennych fwy nag un swydd)

Os ydych chi wedi bod mewn sawl swydd gyda Chronfa Bensiwn Dyfed, efallai y byddwch yn gallu dewis gwahanol gyflogaethau i weld canlyniadau ar wahân.

b)Cynllunydd Ymddeol

Cymharu eich incwm a'ch gwariant yn y dyfodol i helpu i gynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Mae'r offeryn hwn yn eich helpu i wneud y canlynol:

- Amcangyfrif eich incwm pensiwn disgwylidig
- Cymharu eich pensiwn a ffynonellau incwm eraill
- Meddwl am eich costau tebygol wrth ymddeol
- Gweld a allai fod bwlch rhwng incwm a gwariant

Sut mae'n gweithio:

1. Rhowch fanylion am eich gwariant disgwylidig
2. Rhowch unrhyw incwm arall (dewisol)
3. Mae'r offeryn yn cymharu hyn â'ch pensiwn a ragwelir
4. Byddwch yn gweld a yw eich incwm ymddeol yn diwallu eich anghenion

Mae wedi'i gynllunio i'ch helpu i feddwl am gynllunio, **nid i roi cyngor ariannol.**

c) Pwy sy'n gallu defnyddio'r Cynllunydd Ymddeol?

Gallech weld yr offeryn hwn:

- a) Os oes gennych fuddion pensiwn **gweithredol** neu **ohiriedig**
- b) Os oes gennych **sawl cyflogaeth**

Ni fyddwch yn ei weld:

- Os ydych chi'n **bensiynwr** neu'n **ddibynnydd**
- Os ydych chi'n aelod o'r **heddlu** neu'r **gwasanaeth tân**

Os nad yw'r nodwedd ar gael, ni fydd yn ymddangos yn eich dewislen.

d) Deall eich Canlyniadau

Mae'r Gyfrifiannell Buddion a'r Cynllunydd Ymddeol yn eich helpu i wneud y canlynol:

- Gweld sut y gallai eich pensiwn newid dros amser
- Deall effaith ymddeoliad cynnar neu hwyr

- Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwahanol senarios
- Cadw golwg ar sut mae eich cyfraniadau pensiwn yn tyfu

Mae'r offer hyn i roi **arweiniad yn unig** - ni allant roi cyngor na ffigurau terfynol manwl.

Os oes angen arweiniad pensiwn personol arnoch, gallwch gysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed neu ddefnyddio **MoneyHelper** i gael cymorth annibynnol am ddim.

8. Manylion Personol, Manylion Cyswllt a Manylion Banc

Cadw eich gwybodaeth yn gyfredol fel y gall eich cronfa bensiwn gadw mewn cysylltiad â chi.

Gallwch ddiweddarau eich manylion drwy ddewis **Gweld fy manylion** ar eich hafan.

Details and settings

Here you'll find your personalisation and user details pages. From here you can customise your language settings, amend your password and address, or view your pension membership details.



Your personal details

Manage and change your personal information and contact details here.

[Manage my personal details](#)



Employment details

View your membership and financial details as well as scheme information including absences.

[View my employment details](#)

Mae'r adran hon yn cynnwys:

1. Eich manylion personol
2. Eich manylion cyswllt
3. Eich dewisiadau cyfathrebu
4. Eich manylion cyflogaeth
5. Eich manylion banc (os ydych chi'n derbyn pensiwn)

Ceir esboniad am bob adran isod.

a) Eich Manylion Personol

Mae'r dudalen hon yn dangos y wybodaeth sylfaenol sydd gan Gronfa Bensiwn Dyfed amdanoch, fel:

- Eich enw
- Eich dyddiad geni

- Eich Rhif Yswiriant Gwladol
- Eich cyfeiriad

Gellir diweddarau rhai manylion yn uniongyrchol.

Yn achos rhai eraill, efallai y bydd angen i chi gysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed (er enghraifft, newidiadau enw cyfreithiol).

Byddwch chi'n gallu:

- Diweddarau eich enw am ohebiaeth
- Gwirio bod eich gwybodaeth yn gywir

Your details

This is what we know about you, please always keep it updated and make sure your details are correct.

Personal information

If any of this is incorrect, please [contact us](#).

Title	Initials	Gender	Date Of Birth
Mrs	A	Female	19 September 1974
Surname	Forenames	NI Number	
Fabrizi	Alfonso	JA877560B	



Os yw rhywbeth yn anghywir ac na ellir ei newid ar-lein, gallwch gysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed gan ddefnyddio'r dudalen **Cysylltwch â ni** (Rhan 11).

b) Eich manylion cyswllt

Yma gallwch ddiweddarau'r manylion cyswllt sy'n gysylltiedig â'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.

Gallech chi newid:

- Eich **cyfeiriad e-bost** a ddefnyddir i fewngofnodi
- Eich **rhif ffôn** (a ddefnyddir i wirio os yw dilysu aml-ffactor drwy SMS wedi'i alluogi)
- Eich **cyfeiriad post**

I ddiweddarau eich e-bost:

1. Rhowch eich cyfeiriad e-bost newydd
2. Cadarnhewch y cyfeiriad

3. Dewiswch **Cadw**

Contact details

Phone number

Email address

tme.developers+testmember01@gmail.c

Address

7 Church street
Warrington
Cheshire
WA14 4DR
United Kingdom

 Edit contact details

Efallai y gofynnir i chi ei ddilysu gyda chod.

Mae diweddarau eich manylion cyswllt yn helpu i sicrhau:

- Eich bod yn derbyn hysbysiadau
- Eich bod yn gallu ailosod eich cyfrinair
- Eich bod yn gallu dilysu eich cyfrif

c) Dewisiadau Cyfathrebu

Rydyn ni'n gadael i chi ddewis sut rydych chi am dderbyn gwybodaeth, er enghraifft:

- E-bost
- Ar-lein yn unig
- Drwy'r post
- Cymysgedd o wahanol ddulliau

Byddwch yn gweld eich dewis presennol a byddwch yn gallu ei newid yn uniongyrchol ar-lein.

d) Eich Manylion Cyflogaeth

Mae'r dudalen hon yn dangos y swyddi (cyflogaethau) sy'n gysylltiedig â'ch buddion pensiwn.

Gallech weld:

- Eich cyflogaeth bresennol (os ydych chi'n aelod gweithredol)

- Cyflogaethau blaenorol neu hanesyddol
- Gwybodaeth fel dyddiadau dechrau a gorffen
- Pa gyflogaethau sydd â buddion pensiwn o hyd

Job details



Current Employer BASSETT C C	Date joined employer 10/12/1981
Full/Part time Part-time	Hours/Full time 50.00%
Start date 10/12/1981	Date joined scheme 10/12/1981
Date left scheme 09/09/2002	

Mae'r wybodaeth hon yn eich helpu i ddeall o ble mae eich pensiwn wedi dod.

Ni ellir newid y rhan fwyaf o fanylion cyflogaeth ar-lein, gan fod yn rhaid iddynt gyd-fynd â chofnodion eich cyflogwr.

Os yw rhywbeth yn edrych yn anghywir, gallwch gysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed gan ddefnyddio'r tudalennau **Eich Ceisiadau** neu **Cysylltwch â ni**.

e) Eich Manylion Banc

(Pensiynwyr a dibynyddion yn unig)

Os ydych chi'n derbyn pensiwn, gallwch chi ddiweddarau'r cyfrif banc y mae eich taliadau yn mynd i mewn iddo.

I wneud hyn:

1. Dewis **Manylion banc**
2. Rhoi manylion eich cyfrif banc newydd
3. Cadarnhau eich newidiadau
4. Cadw

HEYWOOD

PENSION TECHNOLOGIES

[Home](#)

[Explore](#)

[Logout](#)

Bank details

The account must be solely in the name of the pensioner or a joint account with the pensioner as one of the account holders. If you would like to update your bank details, we will review your request after you submit it and contact you once it has been approved.

Sort code	0800
Account number	12345678
Account holder	Melvin Agostinho
Building Society Ref.	TEST REFERENCE

Edit bank details

Back to dashboard

Efallai y gofynnir i chi gadarnhau pwy ydych chi cyn diweddaru'r manylion hyn.

Bydd eich taliadau pensiwn nesaf yn cael eu hanfon i'ch cyfrif wedi'i ddiweddaru unwaith y bydd y newid wedi'i brosesu.

Os nad ydych chi'n derbyn pensiwn eto, ni fyddwch yn gweld yr opsiwn **Manylion banc**.

f) Pam mae'n bwysig diweddaru eich manylion

Mae diweddaru eich manylion yn sicrhau:

- Eich bod yn derbyn hysbysiadau pwysig
- Eich bod yn gallu mewngofnodi heb broblemau
- Bod eich pensiwn yn cael ei dalu i'r lle iawn
- Bod Cronfa Bensiwn Dyfed yn gallu cysylltu â chi os oes angen gwybodaeth
- Bod eich dogfennau a'ch datganiadau yn mynd i'r cyfeiriad iawn

Mae hyn yn helpu i ddiogelu eich cyfrif a chadw eich cofnod pensiwn yn gywir.

9. Cysylltwch â Ni

Anfon cwestiynau, cael gwybodaeth, neu gysylltu â'ch cronfa bensiwn yn ddiogel ar-lein.

Os oes angen help arnoch chi, os ydych chi am ofyn cwestiwn, neu os oes angen i chi ofyn am wybodaeth, gallwch ddefnyddio:

Cysylltwch â Ni

Gallwch gyrraedd y dudalen o'ch hafan.

a) Cysylltwch â Ni

Os hoffech chi anfon neges uniongyrchol at Gronfa Bensiwn Dyfed, gallwch ddefnyddio'r dudalen **Cysylltwch â ni**.

Fe welwch y ddolen hon fel arfer:

- Ar eich hafan
- Yn eich dewislen
- Ar waelod eich dangosfwrdd

Contact us

If you need help with anything, or maybe just want to give some feedback, use the form below to select your query and add comments. All replies will be sent to your account email address.

Select employment	Please select ▼
Query type	Select an option ▼
Comments	Please add your comments here. Include as much detail as possible to help us quickly resolve your query.

Send message

Ar y dudalen Cysylltwch â ni, gallwch chi wneud y canlynol:

- Anfon cwestiwn

- Rhoi gwybod am broblem
- Gofyn am eich cyfrif
- Gwneud ymholiad am ddogfen neu ddatganiad
- Gofyn am gymorth i fewngofnodi

Beth i'w gynnwys yn eich neges

- Disgrifiad byr o'ch cwestiwn
- Unrhyw ddyddiadau perthnasol
- Atodiadau, os oes angen
- Eich manylion cyswllt (os gofynnir amdanynt)

Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn ymateb naill ai yn:

- Eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein, neu
- Yn uniongyrchol i'ch e-bost

b)Cadw'n ddiogel wrth gysylltu â'ch cronfa

Anfonir eich negeseuon a'ch atodiadau yn ddiogel drwy Fy Mhensiwn Ar-lein.

Awgrymiadau i gadw'n ddiogel:

- Osgoi anfon dogfennau sensitif drwy e-bost
- Defnyddio Lanlwythiadau yn lle hynny os oes angen i chi anfon dogfennau adnabod neu dystysgrifau
- Diweddarau eich manylion cyswllt
- Peidio byth â rhannu eich cyfrinair ag unrhyw un

Ni fydd Cronfa Bensiwn Dyfed byth yn gofyn i chi gadarnhau eich cyfrinair.

Oes angen help arnoch chi neu oes gennych chi gwestiynau?

Mae cymorth ar gael os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddefnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein, boed hynny wrth gofrestru, mewngofnodi, neu wrth reoli'r wybodaeth am eich pensiwn.

Os gwelwch ddolen "Cysylltwch â'ch cronfa bensiwn" ar unrhyw adeg, gallwch ei dewis i ofyn am gymorth yn uniongyrchol. Dyma'r ffordd gyflymaf i'r tîm ddeall pa ran o'r broses rydych chi arni.

Mae tîm Cronfa Bensiwn Dyfed yma i'ch helpu drwy unrhyw beth sydd ei angen arnoch wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Manylion Cyswllt Cronfa Bensiwn Dyfed

Os bydd angen cymorth arnoch ar unrhyw adeg, mae croeso i chi gysylltu â ni:
Ffôn:

Llythyren gyntaf cyfenw'r aelod:

A i G - 01267 224625

H i O - 01267 224185

P i Z - 01267 224125

E-bost: pensiynau@sirgar.gov.uk

Gwefan: <https://www.cronfabensiwndyfed.org.uk/cysylltwch-a-ni/>

Oriau Agor: 9am-5pm (dydd Llun i ddydd Iau), 9am-4.30pm (dydd Gwener)

Gwnewch yn siŵr bod eich **Rhif Yswiriant Gwladol** yn barod gennych pan fyddwch chi'n cysylltu â ni.